

Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 28 Tachwedd 2023 yng Nghaffi Beca am 7.30pm

Yn bresennol: Anthony Jenner, Anthony Eynon, Dennis Jones, Rebecca Jaimangl-Jones, Julian Williams, Ffion John, Michael Fussell, Cyng Dorian Phillips, Janice Morgan (Clerc)

1. Ymddiheuriadau: Tudur Lewis, Russell Davies

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd blaenorol, AJ, yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd presennol, sef TL a RD

2. Datganiadau o ddi-ddordeb: Dim

3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf 26/09/2023:

- Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 26ain Medi 2023 yn gywir gan AE ac eiliwyd gan JW.

Materion yn codi o'r cofnodion:

- Adroddiad/Cynllun gweithredu Bioamrywiaeth: mae JM wedi drafftio cynllun gweithredu ac ar yr agenda i'w drafod (gweler eitem 10)
 - Hysbysebu'r wefan newydd: cadarnhaodd JM bod manylion y wefan wedi cael eu hanfon i Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae poster wedi cael ei osod ar hysbysfwrdd Glandy Cross a'i roi ar y dudalen Facebook. Mae hysbyseb wedi cael ei anfon i'r Cardi Bach ar gyfer rhifyn Ionawr. Poster i'w roi ar hysbysfwrdd Canolfan Ffynnonwen hefyd.
 - Canllawiau hyfforddi gwirfoddolwyr: bydd JM yn gofyn i Jason Lawday am gopi
 - Adran 106: anfonodd JM e-bost at yr Adran Biwro yn ymholi ynghylch faint o arian A106 sydd ar gael ar gyfer Cilymaenllwyd ond heb gael ymateb. Mae wedi lawrlwytho ffurflen gais Adran 106 i'w llenwi ar gyfer cronfa Codi Cerflun Twm Carnabwth
 - Tipio anghyfreithlon: cadarnhawyd bod arwydd tipio anghyfreithlon wedi cael ei osod ym maes parcio Ynys Fach
 - Camau gweithredu yn ymwneud â llwybrau troed y prosiect grant – gweler adran 4 am ddiweddariad
 - Cynllun hyfforddi:
 - dywedodd JM nad yw wedi gorffen y cynllun hyfforddi eto ond bydd yn ei gyflwyno yng nghyfarfod Ionawr. Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi cynllun hyfforddi o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Cam gweithredu: JM i gyflwyno drafft o'r cynllun hyfforddi yn y cyfarfod nesaf**
- mynychodd FfJ hyfforddiant Cod Ymddygiad ar 22/11/23
 - Sbwriel o amgylch tŷ ar werth yng Nglandy Cross: pawb i gadw llygad
 - Aseiad risg: mae JM wedi drafftio ac ar yr agenda i'w drafod (gweler eitem 9)
 - Cinio Nadolig: cytunwyd gohirio tan y flwyddyn newydd

4. Diweddariad ar y Prosiect Adfer Llwybrau Troed

- Rhoddodd JM ddiweddariad ar y prosiect grant:
 - Cadarnhaodd JM bod aelodau o'r is-bwyllgor wedi siarad gyda CHartt ynglyn â'r llwybr o Benrallt i Bantyrodyn a'i fod yn hapus erbyn hyn. Cytunodd yr is-bwyllgor wahodd RD i ymuno fel aelod gan fod y cymdogion mewn cysylltiad rheolaidd ag e

- Cadarnhaodd JM hefyd bod y gwyradau posibl i'r llwybrau troed wedi cael eu trafod yn helaeth yng nghyfarfod diwethaf yr is-bwyllgor ac y byddai Jason Lawday yn drafftio map o'r cynigion hyn i'w rhannu gyda'r perchnogion tir perthnasol
- Anfonwyd cofnodion 2 gyfarfod o'r is-bwyllgor at bawb. Cynhaliwyd y trydydd cyfarfod ar 13 Tachwedd ac mae RD bellach wedi ymuno â'r is-bwyllgor hwn
- Mae'r perchnogion tir yn awyddus i gadw'r llwybrau cyn agosed i'r goedwig er mwyn osgoi cerddwyr yn mynd drwy gaeau agored lle mae anifeiliaid yn pori. Mae Jason Lawday felly wedi drafftio map yn dangos y cynigion newydd, y llwybr coch yn mynd lan drwy goedwig Y Wenallt, a rydyn ni'n ymestyn y llwybr lan hyd at Rhydymerydd. Mae'r llwybr gwreiddiol yn mynd trwy glôs Rhydymerydd ond y cynnig yw bod y llwybr yn cadw yn agosach at y goedwig, i ffwrdd o'r clôs ac yna ymlaen i Rosfach
- Anfonwyd llythyron a map o'r cynigion i'r perchnogion tir, sef Charlie Hartt, Twose Maenhir, Davies Rhydymerydd, Summer Llandre a Marchgwyn yn gofyn am ganiatad ysgrifenedig i fwrw ymlaen gyda hyn. Mae Charlie Hartt, Twose Maenhir, Davies Rhydymerydd a Summers Llandre wedi arwyddo i gadarnhau. Er nad yw Marchgwyn yn berchen ar dir lle mae'r llwybr coch maen nhw wedi mynegi ychydig o anfodlonrwydd. Mae Jason Lawday yn mynd i ddrafftio gorchymyn gwyrto a bydd cyfnod ymgynghori o 30 diwrnod. Gall y broses hon gymryd dau fis. Felly mae gwaith clirio'r contractiwr wedi stopio tan bod hyn i gyd yn cael ei wneud. Mae'r contractiwr wedi cael gwybod, felly, mae'n eitha posib mai yn Chwefror y bydd yn aildechrau
- O ran taliadau, cyflwynwyd 'Claim 1' o £5,760. Rhaid talu'r contractiwr yn gyntaf cyn gallu hawlio'r arian yn ôl. Roedd rhaid cyflwyno llawer o dystiolaeth gyda 'Claim 1'
- Mae 'Claim 2' wedi cael ei gyflwyno erbyn hyn sef £6,000 – ail anfoneb y contractiwr am glirio FP 4/16/3 (£4,800) ac am glirio FP 4/15/1 (£1,200) – gwaith clirio o 1,303 metr. Mae 2,068 wedi cael ei glirio ers dechrau'r prosiect.
- Mae Julie Sweet yn ysgrifennu adroddiadau cynnydd i gydfynd â phob hawliad ac maen nhw'n gynhwysfawr iawn. Mae JS hefyd yn tynnu lluniau o'r gwaith clirio yn rheolaidd fel tystiolaeth
- Mae'r cyfarfod nesaf ar Nos Lun 11 Rhagfyr lle bydd Jason Lawday yn ein cynhgori ar y camau nesaf

5. Gohebiaeth

- Derbyniwyd e-bost gan Archwiliad Cymru yn gofyn cwestiynau ychwanegol am ein datganiad blynyddol ar gyfer 2022/23. Cadarnhaodd JM ei bod wedi darparu atebion i'r cwestiynau i gyd
- Derbyniwyd gair o ddiolch gan ysgrifennydd Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen am dalu cost y cabinet diffib a'r trydanwr am osod. Mae Canolfan Ffynnonwen yn cynnal cwrs ar sut i ddefnyddio'r diffib 8/12/23 6-8pm ac mae croeso i gynghorwyr fynychu
- Derbyniwyd llythyr apêl am gymorth ariannol gan Ambiwylans Awyr Cymru. Cytunwyd rhoi £200 fel y gwnaed yn 2021 a'r blynyddoedd cynt
- Derbyniwyd llythyr apêl gan Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr – heb roi yn y gorffennol gan ein bod yn rhoi i Sir Benfro
- Derbyniwyd llythyr apêl gan Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024 – cefnogwyd Sir Gâr y llynedd; fel arfer yn cefnogi pan fydd yr Eisteddfod o fewn y sir
- Cadarnhaodd JM ei bod wedi anfon copi o adroddiad blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol at bawb. Roedd y Panel yn croesawu adborth cynghorau i ddau beth roedd y Panel yn argymhell i sicrhau nad yw aelodau Cynghorau Cymuned a Thref ar eu colled wrth iddyn nhw gyflawni eu dyletswyddau: (i) Taliad sylfaenol am gostau ychwanegol gweithio gartref. Rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w haelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau

ychwanegol y cartref (gan gynnwys gwresogi, goleuo, ynni a band eang) a geir o weithio gartref; (ii) Taliad penodedig am nwyddau traul. Rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost y nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen er mwyn cyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa. Mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 8 Rhagfyr 2023 ac mae croeso i bawb anfon unrhyw sylwadau sydd gyda nhw

- Derbyniwyd llythyr yn dweud y bydd y terfyn gwariant o dan Adran 137 yn codi o £9.93 i £10.81 yr etholwr ar gyfer 2024/25. Mae Adran 137 yn caniatáu i Gynghorau wario arian ar brosiectau y credir y byddan nhw o fudd i rai neu bob un o'u trigolion, at ddibenion elusennol. Mae 643 o etholwyr yng Nghilymaenllwyd, felly gellir gwario £6950.83 o dan A137 24/25. Bydd angen ystyried hyn yn ofalus wrth osod y praesept ar gyfer 24/25 yng nghyfarfod Ionawr er mwyn ei ddefnyddio'n effeithiol

6. Diweddariad Cyllid ac Arwyddo Sieciau

- Diweddariad Cyllid:
 - Ar 21 Hydref roedd £4,465.12 yn y cyfrif cyfredol, ar ôl talu'r contractiwr am ei anfoneb cyntaf o £5,760. Ar 20 Tachwedd roedd £3,907.59 yn y cyfrif, sy'n dangos nad oedd taliad grant 'Claim 1' wedi dod drwodd. O ganlyniad, mae siec 100836 o £6mil i'r contractiwr am 'Claim 2' wedi cael ei wrthod gan nad oes digon o arian yn y coffrau. Aeth JM i mewn i Barclays ar 24/11/23 a chadarnhawyd bod £10,411.33 yn y cyfrif cyfredol a £743.74 yn y cyfrif cynilo. Roedd yr arian grant ar gyfer 'Claim 1' wedi dod drwodd y bore hwnnw. Fodd bynnag, dywedodd Barclays bod y cyfrif wedi cael ei rewi y prynhawn hwnnw oherwydd methiant i gyflwyno gwybodaeth y gofynwyd amdano. Dywedodd JM ei bod wedi darparu'r wybodaeth angenrheidiol nôl ym mis Chwefror. Dywedodd y gweithiwr banc y bydden nhw'n edrych i mewn i'r mater. Ar ôl sawl galwad ffôn, cadarnhaodd Barclays mai camgymeriad o'u hochr nhw oedd hyn, nad oedd y wybodaeth wedi cael ei lanlwytho'n llwyddiannus. Felly bydden nhw'n ailagor y cyfrif ond byddai'n cymryd sawl wythnos.
 - Dywedodd JM bod y sefyllfa anffodus yma yn creu anawsterau gan nad ydyn ni'n gallu talu'r contractiwr ac felly ddim yn gallu hawlio arian grant.
- Sieciau sydd angen eu harwyddo:
 - Ambiwllans Awyr Cymru: £200
 - Caffi Beca: £25
 - Yswiriant y Cyngor: £534 (gweler adran Iechyd a Diogelwch 9)
 - Un Llais Cymru: £75
 - Cyflog y Clerc am y trydydd chwarter: £349.70

JM i wneud y taliadau unwaith bydd y cyfrif banc wedi cael ei ailagor.

7. Cynllunio

- Nodwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:
 - PL/06297 – dileu amod 5 ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio W/38893, i ganiatáu cadw'r strwythur pren presennol ar y safle a chadw carafán deithiol at ddibenion domestig ategol – Parc yr Odyn, Hebron SA34 0XT
 - PL/06801 - Newid defnydd yr hen dafarn i 1 annedd breswyl a gwaith cysylltiedig - Cross Inn, Efailwen SA66 7XB
 - PL/06718 - adfer ac adnewddu 2 adeilad ysgubor tradidiadol yn 6 uned llety gwyliau ar gyda gwaith tirwedd cysylltiedig – Coynant, Login SA34 0XE
- Ni lleisiwyd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau uchod
Cam gweithredu: JM i lenwi ffurflen Adran 106 ar gyfer Parc yr Odyn a Cross Inn gan eu bod at ddefnydd preswyl

8. Diweddariad gan y Cynghorydd Sir

- Cyfyngiadau cyflymder – mae'r arwyddion i gyd yn eu lle erbyn hyn ac arwyddion 20mya wedi'u gosod ar bwys Ysgol Beca a Ffynnonwen. Mae'r cyfyngiad cyflymder 40 wedi cael ei ymestyn i lawr i Gaer Bedw
- Mynychodd y Cyngh DP gyfarfod cyllideb ddydd lau diwethaf ar yr heolydd ar gyfer y flwyddyn nesaf. £8m oedd y gyllideb bob blwyddyn tan y llynedd a oedd yn £3.7m (22/23). Eleni mae'r gyllideb wedi gostwng i £1.6m ac ar gyfer 24/25 bydd yn gostwng o dan £1m. Mae'r sefyllfa ariannol yn gonsyrn mawr a bydd toriadau sylweddol i atgyweirio heolydd a dim llawer yn gael ei wneud. Cafodd y briffordd ei gwneud yn gynharach eleni.
- Cais Ysgol Beca i gau'r heol rhwng yr ysgol a Chapel Nebo ar 18/12/23 – mae'r Cyng DP wedi siarad gyda'r Heddlu; rhaid mynd â'r cais i'r Cyngor Sir, felly fe fydd yn cysylltu â nhw
- Pont Dolwilym – mae'r haearn newydd wedi cyrraedd felly bydd yn cael ei wneud cyn bo hir
- Adroddwyd bod:
 - adran o'r heol ar bwys Llwynyrebol mewn cyflwr drwg
 - dŵr yn cronni bob tro mae'n bwrw glaw mewn mannau, yn enwedig rhwng Marchgwyn i Bantylodau – efallai bod angen glanhau'r beipen oherwydd wedi blocio
 - darn o darmac ar bwys Llysnewydd yn codi

9. Iechyd, Diogelwch a Lles

- Cofrestr Risgiau – cyflwynwyd y gofrestr risgiau i'w hadolygu. Cytunwyd ychwanegu'r canlynol:
 - arwyddion x 2 (paneli gwybodaeth Meini Gŵyr ac Ynys Fach)
 - offer (strimmers) a fydd yn cael ei brynu ar gyfer y prosiect grant – gwaith cynnal a chadw
- **Cam gweithredu: JM i ychwanegu'r arwyddion a'r offer ar y gofrestr risgiau**
- Yswiriant y Cyngor Cymuned:
 - Dywedodd JM bod angen adnewyddu'r yswiriant ar 3/12/23 ac mae wedi derbyn dyfynbris o £535 ar gyfer y flwyddyn nesa o Clear Councils (BHIB yn flaenorol). Cadarnhawyd bod y polisi yswiriant hwn yn cynnwys y lefelau yswiriant priodol
 - Eglurodd JM, oherwydd y sefyllfa anffodus gyda'r banc, ni fyddwn yn gallu gwneud taliad prydlon i'r cwmni yswiriant. Cynghorwyd JM i ofyn am gyngor oddi wrth Un Llais Cymru ynglyn â'r sefyllfa ynghylch yr yswiriant
 - Bydd JM yn diweddarau pawb o'r sefyllfa drwy e-bost
- **Cam gweithredu: JM i ofyn am gyngor oddi wrth Un Llais Cymru ynglyn â'r sefyllfa gyda'r yswiriant a hefyd gofyn am gyngor ynghylch cwmnïau yswiriant eraill**
- Padiâu diffibrilydd – cytunwyd y dylai'r cyngor cymuned dalu am gostau cynnal a chadw ar gyfer y diffib yng Nghaffi Beca

10. Bioamrywiaeth – cynllun gweithredu drafft

- Dywedodd JM o dan Ddeddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1, Adran 6 mae'n ofynnol cael cynllun gweithredu yn ei le ar fioamrywiaeth ac yna cyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar yr hyn rydyn ni'n gwneud i hyrwyddo bioamrywiaeth yn y gymuned
- Mae JM wedi drafftio cynllun gweithredu ac wedi anfon drafft at bawb i'w ddarllen. Cytunwyd mabwysiadu'r cynllun gweithredu
- Mae Bioamrywiaeth wedi cael ei ychwanegu at yr agenda fel eitem sefydlog item er mwyn gallu diweddarau'r cynllun gweithredu yn rheolaidd

- Dywedodd RJJ bod ap ar gael sy'n gallu adnabod gwahanol blanhigion. Gellir bwydo'r wybodaeth hon i mewn i'r LERC (Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol). Mae RJJ wedi bod ar y llwybrau troed sydd wedi'u clirio ac yn gobeithio mynd eto yn y gwanwyn i edrych ar y gwahanol blanhigion sy'n tyfu yn ardal y prosiect grant. Gobeithir hefyd cydweithio gyda'r ysgol gynradd leol ar yr agwedd hon a rhannu gwybodaeth

11. Unrhyw Fater Arall

- Logo ar gyfer y cyngor cymuned – mae Ysgol Beca wedi dechrau ar y gwaith o ddylunio logo. Bydd RJJ yn dilyn lan ar hyn
- Y ciosg yn Login – mae hwn yn eiddo i'r cyngor cymuned. Cynigiwyd bod y ciosg yn cael ei adfer i fod yn hwb gwybodaeth i'r gymuned, yn cynnwys mapiau cerdded, cyfleoedd cerdded a gwybodaeth diddorol arall. Byddai angen gosod paneli perspex newydd a chot o baent

Cam gweithredu: AJ i edrych mewn i gost adnewyddu'r paneli perspex

- Trafodwyd cael hysbyswrdd i ddisbarthu gwybodaeth i'r gymuned a chytunwyd mai ar bwys siop Glandy Cross fyddai'r safle orau

Cam gweithredu: JM i ofyn i Carwyn James, perchennog siop Glandy Cross am ganiatâd i osod hysbyswrdd ar ochr y siop

- Mae gan Ysgol Beca glwb garddio bob Sadwrn cyntaf y mis ac mae croeso i'r gymuned helpu gyda'r garddio
- Maes parcio Capel Login – tynnwyd sylw bod cerddwyr yn parcio'u ceir yn y maes parcio preifat hwn ac a ddylid felly gofyn i aelodau Capel Login am ganiatâd. Bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf yr is-bwyllgor
- Llwybr troed FP 4/10 o Ffynnondeg, heibio Rhos i Bencraig Uchaf – mae perchennog tir Rhos wedi mynegi dymuniad i wneud gwyrriad

12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

- Nos Fawrth 30 Ionawr 2024 am 7.30pm yng Nghaffi Beca.

Daethpwyd â'r cyfarfod i ben gan y Cadeirydd am 9.30pm

Arwyddwyd

Cadeirydd:



Dyddiad:

